

No.

## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley (Is-Gadeirydd); P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorydd M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) a Cynghorydd A.R. Robertson ((Cyngor Bro Morgannwg).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, V.P. Driscoll ac L.O. Rowlands.

### 787 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 788 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan R. Alexander (Aelod Annibynnol); Y Cynghorwyr R.M. Birch a B.T.Gray (Cyngor Bro Morgannwg).

### 789 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### 790 ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD L.O. ROWLANDS MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR BRO MORGANNWG A CHYNGOR TREF Y BARRI (DSM) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i ystyried yr honiadau (fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad) a wnaed yn erbyn y Cynghorydd L.O. Rowlands mewn perthynas ag adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon ynglŷn â chwyn yn erbyn y Cynghorydd Rowlands mewn perthynas â Chyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri.

Cyn dechrau ystyried yr adroddiad, eglurodd Cadeirydd yn dilyn cyflwyniadau, weithdrefn ar gyfer y gwrandawriad. Wrth gyfeirio at y ffeithiau a wadwyd fel yr oedden nhw yn yr adroddiad ar dudalen 18 o 25, ar ôl cadarnhau gyda phawb

No.

oedd yn bresennol eu bod wedi darllen y papurau, dywedodd Ms S. Cook, yn cynrychioli swyddfa'r Ombwdsmon, nad oedd ffaith 88 yn cael ei gwadu. Cytunwyd wedyn nad oedd ffaith 88, (A wnaeth y Cynghorydd Rowlands ganiatáu i ddelwedd ohono'i hun yn gwisgo Cadwyni'r Maer gael ei defnyddio i gymeradwyo ei fusnes?) i gael ei hystyried gan fod yr Ombwdsmon wedi dod i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cynghorydd Rowlands wedi caniatáu i'r ddelwedd gael ei harddangos.

O ran gweddill y ffeithiau, dangosodd dadansoddiad o'r dystiolaeth fod y Cynghorydd Rowlands wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio am bron i ddwy flynedd ac wedi bod i gyfarfod lle'r oedd mater tebyg wedi ei ystyried. Roedd y Cynghorydd Rowlands hefyd wedi siarad gyda'r Uwch Swyddog Cynllunio oedd wedi egluro'r gwahaniaethau rhwng y prosesau Trwyddedu a Chynllunio ac felly roedd yr Ombwdsmon wedi ei fodloni fod y Cynghorydd Rowlands wedi derbyn eglurhad clir o'r sefyllfa.

Dywedodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll, yn cynrychioli'r Cynghorydd Rowlands, wrth gyfeirio at bwyntiau 86 ac 87yr adroddiad, er yn cydnabod bod yr Ombwdsmon yn ymwybodol bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Uwch Swyddog Cynllunio ac a oedd wedi cynghori'r Cynghorydd Rowlands yn unol â hynny, nid oedd y Cynghorydd Rowlands wedi meddwl ei fod wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Wrth ymateb dywedodd cynrychiolydd Swyddfa'r Ombwdsmon eu bod yn teimlo y dylai'r Cynghorydd Rowlands fod wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac nad oedd wedi ceisio cael canllawiau pellach mewn perthynas â'r mater. Ar ben hynny yn y cyfweiliad gyda Swyddfa'r Ombwdsmon roedd y Cynghorydd Rowlands hefyd wedi datgan ei fod o'r farn y dylai fod wedi gadael y busnes yn gynt, o edrych yn ôl.

Gan nad oedd cwestiynau pellach ar hynny o bryd, gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Rowlands ymateb.

Wrth gyfeirio at bwynt 87 yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Rowlands ei fod wedi bod yn Gynghorydd newydd, ei fod hefyd wedi credu nad oedd yr "hyfforddiant a roddwyd wedi bod yn ddigonol a bod rheolau cynllunio a thrwyddedu cyhoeddus yn gymhleth iddo ef fel unrhyw aelod arall, a phan ofynnodd am gyngor, ei fod wedi bod yn "aneglur iawn". Dywedodd y Cynghorydd Rowlands ei bod yn flin ganddo ac y dylai fod wedi cymryd mwy o gamau a chydnabu hefyd y dylai, wrth edrych yn ôl, fod wedi gofyn i'r Swyddog Monitro am gyngor pellach gan ddweud mai ei naifrwydd oedd yr achos dros beidio â bod wedi gwneud hynny.

Gofynnodd Mrs. Hallett i'r Cynghorydd Rowlands "Allwch chi ddweud eich bod chi'n fwy cymwys nawr fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio?" ac ymatebodd, "Cefais gyngor gan yr Ombwdsmon i gael mwy o hyfforddiant a rhoddodd y Swyddog Monitro hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad". Dywedodd y Cynghorydd Rowlands hefyd wrth y Pwyllgor ei fod hefyd wedi bod yn darllen llyfrau ar gynllunio.

Dywedodd Mrs. Tinsley bod yn rhaid i'r Cynghorydd Rowlands, fel Cynghorydd Rowlands ac fel aelod o nifer o bwyllgorau'r Cyngor fod yn atebol, a manteisiodd ar y cyfle i ofyn i'r Cynghorydd Rowlands pam nad oedd wedi ceisio hyfforddiant

No.

pellach. Mewn ymateb dywedodd y Cynghorydd Rowlands ei fod wedi codi'r mater sawl gwaith gyda swyddogion, gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ond nad oedd erioed wedi digwydd. Roedd hefyd yn dioddef o ddyslecsia ac yn ceisio deall y broses. Dywedodd Mrs Tinsley wrth gyfeirio at adroddiad yr Ombwdsmon wrth y Cynghorydd Rowlands fod tri chyfle penodol wedi bod lle'r oedd wedi mynegi dryswch a diffyg dealltwriaeth o ran y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda Swyddogion Cynllunio ym mis Mawrth a Mai 2019 a holodd pam nad oedd y Cynghorydd Rowlands wedi gofyn am gymorth bryd hynny. Dywedodd y Cynghorydd Rowlands mewn ymateb ei fod wedi cael cyngor gan eraill y byddai popeth yn iawn ond dywedodd eto, wrth edrych yn ôl, y dylai fod wedi gofyn am gyngor a'i fod yn difaru nawr na fydda wedi ceisio'r cyngor hwnnw.

Gofynnodd y Cynghorydd Robertson i'r Cynghorydd Rowlands beth fyddai'n ei wneud yn wahanol pe bai'n rhaid iddo wneud eto, a dywedodd y Cynghorydd Rowlands "na fyddai'n ei wneud eto, na fyddai am agor unrhyw fusnes eto, roedd wedi effeithio ar ei hyder ac na fyddai fyth ofn arno i ofyn am gyngor eto".

Holodd Mrs. Hallett, wrth gyfeirio at y ffaith bod y Cynghorydd Rowlands wedi gwybod bod Cyngor Tref Y Barri wedi gwrthwynebu'r cais, a oedd wedi bod yn drahaus wrth fwrw ymlaen â'r cynigion a pheidio ymgynghori ag etholwyr. Dywedodd y Cynghorydd Rowlands, mewn ymateb, fod Cynghorwyr eraill wrthi'n "cynddeiriogi'r peth" ac er ei fod yn ei ystyried ei hun yn berson gonest a'i fod am ymgynghori ar y mater, roedd wedi cael cyfarwyddyd gan ei bartner busnes i beidio, ond wrth edrych yn ôl ei fod yn dymuno y byddai wedi gwneud. Dywedodd hefyd nad oedd yn draha yn ei farn ef, ac mai mater i'r cyhoedd benderfynu oedd hynny.

Doedd dim cwestiynau na sylwadau pellach gan gynrychiolwyr y naill barti na'r llall, felly aeth y Pwyllgor Safonau ati i ystyried y mater yn breifat.

Wrth ddychwelyd i'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu eu bod yn fodlon fod y Cynghorydd Rowlands wedi bod yn ymwybodol o ganlyniadau agor The Watering Hole cyn i Gais Newid Defnydd gael ei gymeradwyo a'i fod wedi methu â chydymffurfio â Chodau Ymddygiad yr Aelodau.

Yn unol â'r Drefn gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolydd yr Ombwdsmon gyflwyno ei sylwadau yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor.

Dywedodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon mai mater i'r Pwyllgor Safonau oedd penderfynu, ond mai barn yr Ombwdsmon oedd bod safonau wedi eu torri. Er hynny fe wnaethon nhw gydnabod fod y Cynghorydd Rowlands wedi gweithredu'n gyflym drwy beidio cymryd unrhyw ran pellach yn y busnes, ac wrth wneud hynny ei fod wedi colli ei fuddsoddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll, mewn ymateb, fod y Cynghorydd Rowlands yn derbyn ei fod wedi torri Codau Ymddygiad yr Aelodau a'i fod wedi bod yn naif wrth wneud hynny.

No.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, wrth gyfeirio at y Weithdrefn ym mharagraff 10.8.2, at allu'r Pwyllgor i gyflwyno sancsiwn a holodd am farn Swyddog yr Ombwdsmon a ddylid gosod sancsiwn, ac ar ba ffurf.

Dywedodd y Swyddog ei bod o'r farn bod yr enghraifft hon o dorri'r Safonau yn un ddifrifol, yn enwedig gan fod y mater wedi bod yn un cyhoeddus iawn. Ond roedd yr Ombwdsmon wedi nodi bod y Cynghorydd wedi cydnabod nad oedd ei weithredoedd wedi bod yn briodol a bod y mater wedi derbyn llawer o ddiddordeb ymysg y cyhoedd. Unwaith eto, dywedodd y swyddog mai mater i'r Pwyllgor Safonau oedd penderfynu ac er bod y Cynghorydd Rowlands wedi dileu pob cysylltiad â'r busnes ac roedd yn ymddangos ei fod yn edifeiriol, fodd bynnag nid oedd wedi ystyried y risg ehangach a'r effaith bosib ar ei rôl. Roedd hefyd yn ffactor gwaethgol yn eu barn bod yr Aelod yn wleidydd profiadol, oedd yn aelod o nifer o Bwyllgorau ac roedd ganddo lawer o brofiad.

Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorydd Carroll fod y Cynghorydd Rowlands yn hynod edifeiriol ac roedd yn cydnabod nad oedd wedi ymddwyn yn y modd y dylai fod wedi ymddwyn, ei fod wedi bod yn naïf a'i fod wedi derbyn adroddiad yr Ombwdsmon. Wrth gyfeirio at ei brofiad fel Cynghorydd, dywedodd y Cynghorydd Carroll fod y Cynghorydd Rowlands wedi'i ethol gyntaf yn 2017, ac fel llawer o Aelodau roedd heb gael llawer o brofiad cyn ei ethol ac fel aelod o'r cyhoedd ni fyddai wedi cael profiad blaenorol o waith Pwyllgor. Roedd y digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad wedi digwydd yn 2019 ac roedd yn fwy ymwybodol nawr nag yr oedd bryd hynny. Roedd wedi achosi niwed i'w enw da ac roedd hefyd yn gresynu at y ffaith bod yr adroddiad wedi'i ryddhau i'r parth cyhoeddus. Pan ddaeth yn ymwybodol o'r mater gyntaf, roedd wedi cymryd camau ar unwaith i unioni'r sefyllfa ac roedd hefyd wedi colli arian. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Carroll fod y Cynghorydd Rowlands wedi dysgu ei wers ac o ystyried ei ddiffyg profiad, roedd yn gofyn am drugaredd gan y Pwyllgor wrth weinyddu sancsiwn, gyda chais, o ystyried yr holl ffactorau uchod, pe bai sancsiwn yn cael ei osod, y byddai'n gerydd yn hytrach nag yn waharddiad.

Holodd y Cynghorydd Robertson a oedd y naill barti neu'r llall yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth newydd oedd wedi dod i'r amlwg ers i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei wneud gan yr Ombwdsmon. Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd unrhyw dystiolaeth bellach wedi'i derbyn.

Gofynnodd Mr Watkins am eglurhad parthed aelodaeth flaenorol Cynghorydd Rowlands ar y Pwyllgor Safonau, a dywedodd y Cynghorydd Rowlands ei fod cyn hynny wedi bod yn aelod o Banel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau a hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ond wedi dod oddi ar y Pwyllgor oherwydd y cais cynllunio.

Nid oedd sylwadau pellach, felly aeth y Pwyllgor ati i ystyried y mater yn breifat ac yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Ar ôl dychwelyd dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Y Cynghorydd L.O. Methodd Rowlands â chydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o'r Cod Enghreifftiol; paragraff 18.2.6(a) o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Bro Morgannwg; a pharagraff 6(1)(a) o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Tref y Barri mewn perthynas ag:

- Ei weithredoedd yn ymwneud ag agor siop goffi a bar gwin, 'The Watering Hole', heb i'r caniatâd cynllunio newid defnydd cywir fod yn ei le;
- Ei ymddygiad wrth fethu ag ystyried y sefyllfa'n briodol; a
- ceisio cyngor am ei rôl a'i safbwynt, a oedd yn awgrymu diffyg barn sylweddol ar ei ran, a allai effeithio ar y berthynas o ymddiriedaeth a oedd yn bodoli rhwng y Cyngor a'r Cyngor Tref, ei Aelodau etholedig, a'r cyhoedd;

a bod y Cynghorydd L.O Rowlands yn cael ei atal rhag bod yn Aelod o Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri am gyfnod o fis.

(2) Hysbysu'r Cynghorydd L.O Rowlands o'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i:

Y Cofrestrydd  
Panel Dyfarnu Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod  
Powys  
LE1 5HA

a bod yn rhaid i'r hysbysiad o apêl nodi'r canlynol:

- y seiliau dros apelio, a
- a yw'r person sy'n rhoi hysbysiad o'r apêl yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal ar ffurf sylwadau ysgrifenedig ai peidio.

(3) Y dylid cyhoeddi, yn amodol ar apêl (os o gwbl) i ganfyddiadau'r Pwyllgor Safonau fel y manylir arnynt ym Mhenderfyniad (1) uchod yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 , fel y'i diwygiwyd ("y Rheoliadau").

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r cyfarfod o benderfyniadau'r Pwyllgor, y ffactorau lliniarol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd George Carroll ar ran y Cynghorydd Rowlands a'r ffactorau lliniarol a gwaethygu a gyflwynwyd gan gynrychiolydd yr Ombwdsmon, Ms. Sinead Cook, yn y cyfarfod , ac er budd hyrwyddo a chynnal Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus.

No.

(2&3) Cydymffurfio â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol  
(Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel  
y'u diwygiwyd.